**Atodiad C**

## Meini Prawf Person Addas a Phriodol

Cyn y gall y cyngor roi Trwydded, mae'n rhaid iddo benderfynu a yw deiliad y drwydded neu reolwr arfaethedig y tŷ'n addas ac yn briodol.

At y diben hwn, mae'r materion canlynol yn berthnasol os yw'r fath berson:

(a) wedi cyflawni trosedd sy'n cynnwys twyll, anonestrwydd, trais, cyffuriau neu droseddau rhywiol a restrir yn Atodlen 3 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003;

(b) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, lliw, hil, lleiafrif ethnig, neu darddiad cenedlaethol neu anabledd mewn cysylltiad â busnes, neu

(c) wedi torri unrhyw gyfraith sy'n ymwneud â thai neu gyfraith landlord a thenant, neu

(ch) wedi torri unrhyw Gôd Ymarfer Cymeradwy a wnaed o dan Ddeddf Tai 2004.